nofitstate circus

**Teitl y Swydd:** **Cynorthwyydd Datblygu**
**Yn atebol i:** **Y Rheolwr Datblygu**

---

NoFit State yw'r prif gwmni syrcas cyfoes yn y Deyrnas Unedig sy'n gwneud sioeau ar raddfa fawr. Mae'n cynhyrchu sioeau teithiol proffesiynol a phob math o brosiectau cymunedol, addysgol, a hyfforddiant i bobl o bob oed. Dros y deng mlynedd diwethaf bu cynyrchiadau teithiol NoFit State mewn 19 o wledydd, gan berfformio i gynulleidfaoedd o dros 460,000, yn ogystal â chael eu canmol gan adolygwyr ac ennill nifer o wobrau rhyngwladol o bwys ym myd y celfyddydau.

Ein nod yw creu gwaith eithriadol sy’n newid bywydau. Rydym yn dathlu gallu pobl gyffredin i wneud pethau allan o’r cyffredin.

Mae syrcas gyfoes wedi'i gwreiddio yn y gymuned deithiol sy'n cyrraedd rhywle, yn codi pabell, yn denu cynulleidfa, ac yna'n gadael â dim ond patshyn fflat o laswellt wedi melynu ac atgofion i brofi iddynt fod yno o gwbl. Ni yw'r dieithriaid sy'n byw yn eich plith – ac os rhedwch i ffwrdd i ymuno â ni, cewch eich rhyddhau o'ch swildod, o’ch confensiynau, ac o reolau cymdeithas sefydlog. Byddwch yn cychwyn ar siwrnai gan wybod nad oes pen draw iddi – y daith sy'n bwysig.

Ein gwerthoedd:
- craidd canolog – pobl, lleoedd, gwerthoedd
- orbitau'n croestorri – bywydau, breuddwydion, anghenion
- dathlu creadigrwydd – pobl gyffredin yn gwneud pethau allan o’r cyffredin
- hunaniaeth ddiwylliannol – rydym yn dathlu grym ein hamrywiaeth
- gyda'n gilydd rydym yn creu gwaith gwych ac yn newid bywydau.

Yng Nghymru y mae gwreiddiau NoFit State Circus ac mae’n cynnig:
- Cynyrchiadau teithiol proffesiynol
- Cyfleoedd i gymunedau ymgysylltu a chymryd rhan
- Datblygu'r sector
- Modelau newydd ar gyfer byd sydd wedi newid.

## Diben y Rôl

Cefnogi NoFit State Circus yn y gwaith codi arian, cynhyrchu incwm a datblygu perthnasoedd.

## Prif Gyfrifoldebau

Codi arian
- Ymchwilio, pennu, ysgrifennu a chyflwyno ceisiadau i sicrhau cefnogaeth i gyrraedd targedau penodol mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Datblygu
- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Datblygu mewn gweithgareddau a chyfarfodydd yn ôl yr angen.

Stiwardio a Datblygu Perthnasoedd

- Ymchwilio a datblygu perthnasoedd gyda chefnogwyr newydd, noddwyr corfforaethol, cyfranwyr unigol, ymddiriedolaethau a sefydliadau mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Datblygu
- Cefnogi gwaith cynnal perthnasoedd gyda chyfranwyr a chyn-gyfranwyr, cefnogi gweithgareddau cyfathrebu â chyllidwyr a noddwyr, a chyn-gyllidwyr a chyn-noddwyr
- Cefnogi gwaith cynllunio, rheoli a chynnal digwyddiadau meithrin a datblygu, yn cynnwys nosweithiau gwahoddedigion.

Ymchwil ac Adroddiadau

- Arwain y gwaith o gasglu a dadansoddi data a sicrhau effeithiolrwydd wrth adrodd i'r holl gyllidwyr a chefnogwyr
- Cefnogi'r gwaith sy'n dal i gael ei wneud i ddatblygu fframwaith a strategaeth y cwmni ar gyfer monitro a gwerthuso
- Cydgysylltu â'r Tîm Marchnata i reoli a chynnal system CRM y cwmni a chreu'r infograffeg angenrheidiol i gefnogi gwaith dadansoddi ac adrodd trwy'r holl gwmni
- Ymchwilio i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau ac adroddiadau, ac i gyfrannu at y prosesau cynllunio rhaglenni a datblygu cynulleidfaoedd.
- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid, Gweinyddwr y Cwmni a rheolwyr prosiectau wrth greu adroddiadau ariannol ar gronfeydd dynodedig.

Cyfathrebu a Gweinyddu

- Sicrhau bod cyfathrebu da rhwng holl adrannau'r cwmni cyfan
- Cynnal archif monitro a gwerthuso prosiectau'r cwmni i hwyluso croesgyfeirio mewnol a dysgu ar y cyd
- Rheoli cronfa ddata effeithiol a manwl-gywir fel rhan o gronfa ddata ehangach y cwmni
- Bod yn gyfrifol am lunio pytiau newyddion a negeseuon rheolaidd a phriodol ar gyfer cyfranwyr, cyllidwyr a phartneriaid cyflwyno
- Bod yn gyfrifol am ddiweddaru'r tudalennau Cefnogwch Ni ar y wefan mewn cydweithrediad â'r Adran Farchnata
- Cefnogi gwaith cysylltiadau cyhoeddus (PR) trwy'r cwmni cyfan.

Cyffredinol

- Cefnogi nodau ac amcanion NoFit State Circus yn fewnol ac yn allanol
- Chwarae rhan weithredol yn y cwmni cyfan drwy fynychu cyfarfodydd y cwmni a chadw i fyny â rhaglen weithgareddau a digwyddiadau'r cwmni
- Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'n rhesymol gofyn amdanynt.

Canllaw yw hyn i natur y gwaith y gofynnir i'r Cynorthwyydd Datblygu ei wneud. Nid yw'n cynnwys popeth nac yn hollol gaeth a gellir ei adolygu gyda deiliad y swydd a'r rheolwr llinell o bryd i'w gilydd.

**Manyleb y Person**

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| Bod â diddordeb/angerdd gwirioneddol dros syrcas gyfoes /theatr /y celfyddydau perfformio /celfyddydau awyr agored /gwyliau celfyddydol, ac awydd cryf i weithio ym maes Rheoli/Datblygu'r Celfyddydau | Bod â phrofiad o weithio gyda chwmni celfyddydau perfformio |
| | Bod â phrofiad o godi arian yn llwyddiannus |
| Addysg i lefel gradd neu brofiad galwedigaethol cyfatebol neu brofiad cymharol ym myd gwaith | Gradd neu gymhwyster uwch mewn maes cysylltiedig e.e. Rheoli’r Celfyddydau |
| Gallu cyfathrebu'n hyderus, yn ysgrifenedig a wyneb yn wyneb, gan addasu'ch arddull gyfathrebu yn ôl y sefyllfa a'r gynulleidfa | Bod â phrofiad pendant o feithrin a chynnal perthnasoedd yn llwyddiannus gyda chyfranwyr, noddwyr a/neu gyllidwyr |
| Gallu bwrw iddi i weithio'n annibynnol fel aelod gwerthfawr o'r tîm datblygu | |
| Sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfrifiadurol rhagorol | |
| Gallu defnyddio cyfrifiadur, gan ddysgu a defnyddio gwahanol becynnau meddalwedd yn cynnwys systemau cronfeydd data | Bod â phrofiad pendant o ddefnyddio meddalwedd cronfeydd data a CRM ar gyfer ymchwil a chadw golwg ar gysylltiadau Er gwybodaeth, mae NFS yn defnyddio Spektrix a Dot Digital ar hyn o bryd. |
| | Bod â sgiliau dylunio cryf a gwybodaeth dda am feddalwedd cyhoeddi |
| | Bod â sgiliau dylunio gweledol da a dealltwriaeth o feddalwedd golygu lluniau |
| Gallu deall y darlun mawr a nodau hirdymor a'u cydbwyso â gofynion y gwaith o ddydd i ddydd | |
| Da am dalu sylw i fanylion a'r awydd i wneud gwaith manwl-gywir o ansawdd da | |
| Gallu gweithio fel rhan o dîm bach dan bwysau gan ymateb i derfynau amser tynn | Bod yn drefnus iawn a gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hunan, gyda'r gallu pendant i weithio'n gyflym ar nifer o wahanol brosiectau ar yr un pryd |
| | Wedi profi'ch bod yn gallu cyflwyno gwybodaeth gywir a manwl ar fyr rybudd |
| Ymrwymiad i gyrraedd safonau uchel ym mhob agwedd ar eich gwaith | Gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn mwy nag un iaith (yn enwedig Cymraeg a/neu Ffrangeg yn ogystal â Saesneg) |
| Bod yn barod i fod ar gael i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau pan fydd angen | |

**Safle yn y Cwmni**

- Y Rheolwr Datblygu fydd rheolwr llinell y Cynorthwyydd Datblygu
- Bydd y Cynorthwyydd Datblygu yn ceisio denu cyfranwyr, darpar gyfranogwyr a rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu â'r cwmni, gan symud o berthnasoedd ffurfiol yn unig i rai sy'n seiliedig ar gysylltiad emosiynol ac ymrwymiad.

**Hyfforddiant**

Efallai y bydd angen i ddeiliad y swydd gael hyfforddiant ar nifer o raglenni meddalwedd, yn enwedig Spektrix, a rhoddir hyfforddiant os bydd angen mewn unrhyw faes

**Y Broses Recriwtio**

Mae hon yn swydd lawn amser, am 40 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Cynigir y contract am 12 mis i ddechrau (yn cynnwys cyfnod prawf o 6 mis), gyda'r nod o greu swydd barhaol.

Cyflogir deiliad y swydd ar sail PAYE a bydd yn gweithio ym mhrif swyddfa'r cwmni yng Nghaerdydd, Four Elms.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: | 9am, dydd Iau 22 Hydref 2026 |
| Cyfweliadau: | Wythnosau'n dechrau ar 26 Hydref ac 2 Tachwedd |
| Syniad o'r dyddiad dechrau: | Cyn gynted â phosibl |
| Cyflog cychwynnol: | £28,000-£30,000 y flwyddyn, yn dibynnu ar brofiad |

Mae NoFit State yn ymdrechu i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.

Mae hygyrchedd yn rhan ganolog o'n hethos ac yn cael ei adlewyrchu yn ein trefniadau recriwtio. Os teimlwch y gallech wneud y swydd hon ond nad ydych yn ticio pob bocs ym manyleb y person, neu os credwch y byddai arnoch angen hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol er mwyn llwyddo'n llawn, byddem yn dal wrth ein bodd yn clywed wrthych.

Rhowch wybod i ni os bydd angen i ni wneud rhyw addasiadau yn ystod y broses ymgeisio neu recrwitio a byddwn yn barod iawn i'ch cefnogi.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Os hoffech ymgeisio am y swydd hon, gofynnir i chi lenwi'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal a'u hanfon gyda llythyr eglurhaol a chopi o'ch CV i: **jobs@nofitstate.org** neu **Development Assistant Application**
**NoFit State Circus**
**Four Elms Road**
**Caerdydd CF24 1LE**



NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806